

---

## PWYLLGOR CRAFFU GOFAL DYDD IAU, 6 MEHEFIN 2019

---

### YN BRESENNOL:

Y Cynghorwyr: Menna Baines, Annwen Daniels, Annwen J Davies, Alan Jones Evans, Medwyn Hughes, Eryl Jones-Willimas, Gareth T M Jones, Beth Lawton, Dafydd Owen, Dewi Wyn Roberts, Angela Russell.

**SWYDDOGION:** Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu) a Rhonwen Jones (Swyddog Cefnogi Aelodau).

### HEFYD YN BRESENNOL:

Mewn perthynas ag eitem saith ar y rhaglen: Y Cyngorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant), Rhion Glyn (Uwch Reolwr Busnes, Oedolion Iechyd a Llesiant), Eurig Williams, (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Cefnogaeth Gorfforaethol).

#### 1. ETHOL CADEIRYDD

**Penderfynwyd:** Ethol y Cyngorydd Dewi Wyn Roberts, yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019/20.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Aelod newydd ar y pwyllgor, Y Cyngorwr Gareth T M Jones.

Diolchwyd i'r Cyngorydd Eryl Jones-Willimas am ei gefnogaeth fel Cadeirydd y pwyllgor dros y ddwy flynedd diwethaf.

Rhoddyd diolchiadau a dymuniadau gorau i Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu) ar ei ymddeoliad mis Awst 2019.

#### 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**Penderfynwyd:** Ethol y Cyngorydd Beth Lawton yn Is-gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019/20.

#### 3. YMDDIHEURIADAU:

Y Cyngorwyr Richard Medwyn Hughes, Linda Ann Jones, Cai Larsen, Peter Read.

#### 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cyngorydd Dewi Wyn Roberts fuddiant personol yn eitem saith - Anawsterau Recriwtio oherwydd bod ei wraig yn gweithio yn y maes gofal. Gan fod yr eitem yn fater cyffredinol recriwtio staff newydd, nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 5. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2019, fel rhai cywir yn amodol ar gynnwys cyfeiriad at y trydydd sector yn y frawddeg gyntaf ym mharagraff gwasanaethau hwb yn eitem pump. *'Nodwyd rhai syniadau ac angen ar gyfer gwasanaethau sydd yn cyfuno gwaith y Bwrdd Iechyd Gofal a'r trydydd sector gan gynnwys elfen o dai'*.

## 7. ANAWSTERAU RECRIWTIO:

Adroddiad cyffredinol er gwybodaeth gan yr Aelod Cabinet, Oedolion, Iechyd a Llesiant. Cyflwynwyd yr adroddiad cyntaf yn Nhachwedd 2018 gan yr Uwch Reolwr Busnes yn amlygu canfyddiadau cychwynnol y gwaith a wnaethpwyd gan gwmni CELyn yn edrych ar recriwtio a chadw gofalwyr gofal cartref.

Yn ehangach wedyn mae 'Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y maes Gofal' yn un o flaenoriaethau Strategol y Cyngor 2018-23 a phwrpas yr adroddiad yw cyflwyno rhaglen waith.

Disgwylir derbyn sylwadau gan yr Aelodau i'w bwydo i'r pedwar ffrwd gwaith sef tâl ac amodau gwaith. Edrych ar eu sgiliau arbenigol, a proffil y swydd, gan feddwl am y ffordd orau o gyfathrebu a marchnata recriwtio staff yn y dyfodol.

### Mapio'r Gwaith

- Nododd yr Aelod Cabinet i gwestiwn gan Aelod bod grŵp wedi ei sefydlu ac wedi dechrau ar y gwaith o fapio'r hyn sy'n digwydd yn barod er mwyn adnabod unrhyw fylchau sy'n bodoli. Roedd y grŵp yn cynnwys swyddogion allweddol o'r Uned Datblygu'r Gweithlu, adnoddau Dynol a Darparu Mewnol. Rhagwelid tynnu gwasanaethau eraill i mewn yn ystod y misoedd nesaf.
- Nododd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu, gan fod y gwaith yma yn mynd ymlaen gan yr uned, daeth y pwyllgor i benderfyniad flwyddyn ddiwethaf oedi'r ymchwiliad craffu i'r pwnc Anawsterau Recriwtio ar hyn o bryd. Un elfen o bwysigrwydd sydd angen ei gydnabod yn y gwaith mapio yw gwaith sylfaenol sydd wedi ei gomisiynu gan Grŵp Iechyd Canolbarth Cymru. Roedd dau Aelod o'r pwyllgor hwn wedi bod yn craffu ychydig ar y gwaith o fewn y grŵp, felly roedd gan y Cynghorwyr profiadol hyn gyfraniad pwysig i'w wneud o fewn gwaith mapio.

### Camau Penodol:

Disgwylid cwblhau'r gwaith mapio erbyn mis Hydref 2019.

### Tâl ac Amodau Gwaith

Cyflwynwyd y drafodaeth ddilynol gan yr Aelod Cabinet, gyda'r Uwch Reolwr Busnes, Oedolion Iechyd a Llesiant â Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Cefnogaeth Gorfforaethol yn cyfrannu mewnbwn mwy manwl ar y rhaglen waith.

- Nodwyd bod y gwasanaeth o'r farn bod anghysondeb yn amodau a thelerau gwaith y sector anibynnol a'r ddarpariaeth fewnol ar draws y maes. Nodwyd fod y gwaith trawsnewid gofal cartref yn anelu i gysoni'r amrwyaieth sy'n bodoli er lles y sector.

- Eglurwyd fod y gwaith o drawsnewid gofal cartref yn rhoi'r ffocws ar dynnu gwastraff allan o'r system gyfredol. Mae'r gwasanaeth o'r farn fod modd ariannu gwellainau mewn amodau a thelerau gwaith trwy andabod yr elfennau hynny sydd ddim yn ychwanegu gwerth ac ail ail ddefnyddio'r arian. Yn ogystal a gwella amodau a thelerau gwaith dylai newid y ffordd fyddwn yn comisyntu i'r dyfodol arwain at roi sicrwydd gwaith tymor hirach i staff a phatrymau gweithio sy'n rhoi balans bywyd a gwaith gwell. Nodwyd fod y gwaith ym maes gofal cartref yn fwy aeddfed na meysydd eraill ond fod y ffrwd gwaith yma yn edrych hefyd ar draws y maes gofal megis Preswyl / Nyrio ac Anableddau Dysgu. Roedd cynabyddiaeth y ffrwd gwaith yn uchelgeisiol ac yn mynd i fod yn sialens.

#### **Camau Penodol:**

Disgwyllir cysoni lefelau cyflog y gofalwyr cartref ar draws y sectorau erbyn Ebrill 2021.

#### **Cynllunio'r Gweithle – Sgiliau Arbenigol**

Cytunwyd yn y cyfarfod, bod angen llwybr gyrfaoedd da o fewn gofal gan ddarparu hyfforddiant a meithrin talent ein hunan, trwy gynlluniau hyfforddeion proffesiynol, prentisiaethau a phrofiadau gwaith gan weithio gyda cholegau a Phrifysgolion. Roedd enghraifft o hyn yn bodoli yng Ngwynedd i fyfyrwyr cwrs MA Gwaith cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol.

- Mynegodd Aelod bod angen marchnata'r gyrfaoedd hyn i dynnu mewn dynion a marchod. Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o swyddi y maes gofal yn cael eu cyflawni gan ferched.
- Roedd yr Aelodau yn gweld hefyd bod anghysondeb rhwng Gogledd a De Gwynedd o ran darpariaeth recriwtio staff.
- Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o drosglwyddo'r negeseuon cywir i'r staff, wrth adlewyrchu'r newidiadau sydd ar y trothwy, gan ddatblygu adnoddau cyfathrebu a marchnata da, a bod yr egwyddorion yn ddealladwy.
- Nododd y Swyddogion bod amser wedi ei ddyrannu i'r Aelodau fynegi eu pryder o fewn sesiynau gweithdy ar y pwnc, gan annog bob Aelod i fod yn bresennol.
- Cytunwyd bod rhaid edrych ar y ffordd o dargedu'r swyddi wrth farchnata gan edrych ar bwrpas y swydd a pham bod ei hangen.

#### **Camau Penodol:**

Nodwyd rhagweld bydd y gwaith yma yn dechrau yn ystod Gorffennaf ac Awst 2019.

#### **Statws, Delwedd a phroffil y Swydd**

Nodwyd bod gofyn cyfreithiol i staff rheng flaen y maes gofal ar draws Cymru fod yn gofrestredig gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Roedd y staff yn gweld bod mwy o ddisgwyliadau a chyfrifoldebau arnynt ond dim chydabyddiaeth ariannol yn dilyn. Er hyn nodwyd fod manteision i'r newid ac fod hyn yn gallu cyfrannu tuag at godi statws swyddi yn y maes.

Gofynnwyd i'r Aelodau amlygu pryderon y staff i'r gwasanaeth er mwyn edrych i mewn i'w pryderon ac ymateb yn ôl. Yn dilyn i bryder gael ei fynegi am allanoli y ddarpariaeth gofal cartref yn benodol, eglurodd yr Uwch Reolwr Busnes, Oedolion Iechyd a Llesiant nad yw'r newid sydd ar droed yn golwng newid y balans sydd mewn lle ar hyn o bryd o ran canran y farchnad sy'n fewnol ac anibynnol.

- Nodwyd y byddai fod polisi iaith y Cyngor yn berthnasol o ran y ddarpariaeth fewnol, a fydd disgyliadau ieithyddol ar y sector anibynnol yn cael eu gosod a'u monitro trwy gytundebau.
- Nododd Aelod bod recriwtio yn y maes dementia yn broblem yn Ne Gwynedd. Cadarnhawyd bod fforymau ar draws Gwynedd gydag iechyd mewn trafodaeth ynglŷn â hyn. Ychwanegodd yr Aelod bod angen edrych i mewn ar gyfer system hyfforddi well i ofalwyr cartref i'w addysgu ar wahanol sgiliau proffesiynol yn y maes.

**Camau Penodol:**

Gofalwyr Cartref yn gorfod bod yn gofrestredig erbyn Mawrth 2020. Gweithwyr Gofal Preswyl yn gofrestredig erbyn Mawrth 2022.

Yn ogystal ag adrodd yn gyson i'r Cyfarfod Monitro Perfformiad mae angen monitro cynnydd y rhaglen waith trwy adroddiadau perfformiad yr Aelod Cabinet. Mi fydd yr Aelod Cabinet yn defnyddio'r Pwyllgor Craffu i adrodd ar lwyddiant y gwaith ond hefyd ar gyfer amlygu unrhyw rwystrau sy'n atal y gwasanaeth i gyflawni'r camau yma. Ni fydd y mater yma yn dod yn ôl i'w graffu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r gwasanaeth am y cyflwyniad a bod angen cyfleu yn ôl i'r Pwyllgor Craffu cyn mynd i'r Cabinet am y rhesymau a godwyd gan yr Aelodau.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y gellid cyfarfod yn anffurfiol gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i drafod y sylwadau.

**PENDERFYNWYD:**

- Aelod Cabinet i gyflwyno sylwadau'r Pwyllgor i'r Cyfarfod Monitro Perfformiad.
- Derbyniwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 12.05 y.p.

**CADEIRYDD**